

David Lewis Wooding, 1878.

MARWNAD,

Yr Coffadwriaeth

AM Y DIWEDDAR

BARCH. J. ROWLANDS,

GWEINIDOG YR EFENGYL

Yn NGHWMLLYNFELL a CHWMAMMAN,

Yr hwn a ymadawodd â'r fuchedd hon, Mai 28ain, 1834,

YN 45 MLWYDD OED.

GAN JOHN DAVIES,

Ystradgurlais.

“Gwyn eu byd y meirw y rhai sydd yn marw yn yr Ar-
glwydd.”—DAT. 14. 13.

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD GAN E. GRIFFITHS,

HEOL FAWR.

—
1834.

Oddiar serch personol, yn nghyd â'r siarad
parchus sydd gan yr eglwysi a'r ardalwyr yn
gyffredin, y cyfansoddais yr ychydig Bennill-
ion canlynol. Gallaf ddywedyd yn debyg fel
y dywedodd ein Harglwydd am y wraig hòno
yn yr efengyl, 'Yr hyn a allodd hon hi a'i
gwnaeth.' Er nad wyf fi a lle genyf i ganmol
y gwaith, gallaf ddywedyd—yr hyn a ellais a
wnaethum

Eich gostyngedig Was,

J. D.

MARWNAD, &c.

- 1 PAN bwy'n syllu ac yn edrych
Oddiamgylch ar bob llaw,
Gwelai'r duwiol deulu, 'n dawel,
Yn ymadael yma a thraw;
Angau, brenin dychryniadau,
Yn eu cludo tua'r bedd,
Mor ddiaffafr y gwrolion,
A'r gwywedig gwael eu gwedd.

- 2 Yn ol cyngor dwyfol drefn,
Doeth Greawdwr dae'r a nef,
Dirgel bethau 'n dod yn eglur,
Fel maent yn ei arfaeth ef:
Llywodraethu fel y myno,
Mae yn mhlith holl ddynolryw,
Dwyn i'r bedd a chodi i fynu,
Clwyfo, lladd, a chadw'n fyw.

- 3 Nid yw'n gofyn cyngor un gwr,
P'odd y gweithia is y nen,

Ond yn ol ei lân ewyllys
 Dwg ei feddwl oll i ben ;
 Ac yn mhlith trigolion nefoedd,
 Llywodraethu y mae ef,
 O am dewi, a chael gwaeddi,
 Gwneler ei ewyllys ef.

4 Fe ddañfonodd genad ffyddlon,
 I hôl ROWLANDS tua thre',
 Angau nerthol, 'r gelyn olaf,
 Dyna yw ei enw e',
 Gwnaeth ei orchwyl mewn munudyn,
 Rhoddodd iddo farwol glwy',
 'Chawn mo'i weled mewn cymanfa,
 Na chwrdd cwarter, yma mwy.

5 Anwyl ROWLANDS, p'odd bu arnat,
 Wrth wynebu'r dyffryn du?
 Pa dywyllwch ac annhrefn,
 I'r trueiniaid yno sy?
 Pa fath feini sy'n yr afon,
 Pa mor ddwfn? Pa mor gry'?
 Yn mha ddull mae'r Archoffeiriad,
 Yno'n dofi grym y lli'?

6 Mi ddych'mygaf gwelai'r Iesu
 Yn yr afon yn dy gwrdd ;
 Yn dywedyd, Da was ffyddlon,
 Gâd i'r aeth i fyned ffwrdd :
 Tyr'd i mewn i'r pur lawenydd,
 Mi bar'toais i ti le,
 Gyda'r dyrfa a ddaeth allan
 O'r cystuddiau tua thre'.

7 Beth yw y'th olygiadau heddyw,
 Anwyl ROWLANDS, dywed im' ?
 Dywedaist yma yn odidog
 Am rinweddau pen y bryn :
 Ond, pe cawn dy glywed heddyw,
 Dywedit gyda newydd flas,
 Am rym cariad y Messiah,
 A rhinweddau dwyfol ras.

8 P'odd mae arnat yn y gwynfyd?
 Nid fel yma gyda ni;
 A oes cofio'r tentasiwnau
 Gefaist ar y ddaear ddu?
 Yntau syllu ar newydd bethau,
 Trefn iechydwrïaeth lawn,
 A bwrcasodd Iesu'r Meichiai,
 Ar Galfaria un prydnhawn.

9 Nid wyf eto yn nes o wybod,
 Pwy sydd yna gyda thi,
 A oes rhai fu'n anwyl genyt
 Yma ar ein daear ni?
 B'le mae *Evans* draw o Raiadr,
Hammerton o Newton fwyn?
 Fu'n ddiweddar ar y ddaear,
 Y newyddion da yn ddwyn.

10 A oes yna un gyfeillach?
 A ddywedaist fel y bu
 Yn Nghwmllynfell, wythnos gyfan,
 Cyn it ado'n daear ni?
 Am y felus wledd a gawsom,
 Mewn Cymanfa ar ein taith,

Cyn it' orphen dy ddiwrnod,
A myn'd adre' ddiwrth dy waith.

11 Ond er meddu Cymanfaoedd,
A rhinweddau crefydd Crist;
Ar ol bod ar ben y mynydd
Wylo yn y dyffryn trist,
Cymysg ydyw, ar y goreu,
Yma ar ein daear ni:
Ond cyflawnder o lawenydd
Yw hi yna gyda chwi.

12 Fe fu'n enwog ar y ddaear,
Can's tywysog oedd efe,
Arweinydd tirion teulu Israel,
O'r anialwch tua thre',
Fe ddangosai'r llwybr union,
Ac fe dystiolaethai ma's,
Nad oes ffordd i gadw enaid,
Ond trwy haeddiant Crist a'i ras.

13 Fe fu yn y weinidogaeth
Dros dri phump a thair yn llawn,
O flynyddau yn cyhoeddi
'R iechydwriaeth fawr ei dawn;
Hyd nes daeth yr awr bennodwyd
Yn y trag'wyddoldeb maith,
Megys milwr wedi concro
Fe aeth adre' i ben ei daith.

14 Ffarwel, ffarwel, ROWLANDS, bellach
Ni ddychweli mwy yn ol,


Ond 'mhen 'chydig bach o ddyddiau
 Ni ganlynwn ar dy ol,
 Pridd i'r pridd a gaiff ei roddi
 'R yspryd at yr hwn a'i rhodd,
 Hyd nes bloeddio yr Archangel,
 Yno cawn ein barn ar go'dd.

15 Ac os byddwn fyr o bwysau
 Yn y glorian ddydd a ddaw,
 Ar ol gwrando y'Nghwmllynfell,
 A'r gym'dogaeth yma a thraw,
 Cawn ein gyrru mewn digofaint,
 Llid trag'wyddol fydd ein lle,
 Am in' wrthod iechydwriaeth,
 A dirmygu'i eiriau e.

16 Mrs. ROWLANDS, yn eich galar,
 Trowch eich golwg tua'r nef,
 At yr hwn sy'n gwrando gweddi,
 Ac a glyw riddfanllyd lef,
 Na alerwch fel heb obaith,
 Cael ail gwrddydd yn y man,
 Gyda'r Iesu mewn gogoniant,
 Mi obeitha, fydd eich rhan.

17 A Chwmamman a Chwmllynfell,
 Ei ddwy eglwys barchus iawn,
 Llefych lawer tua'r nefoedd,
 Am i'r Arglwydd mawr ei ddawn,
 Anfon gweithiwr idd ei winllan
 Gadwo'r llafur yn ei le,
 Yspryd cariad a'ch rheolo
 Nes eich myned draw i dre.

18 Rhof ofyniad, wrth ddybenu,
 A oes drygfyd yn nesau
 Gan fod Llywydd mawr y bydoedd
 'N cym'ryd atto'r duwiol rai?
 A yw'r Ior yn ddig wrth Gymru
 Am ein beiau aml ri?
 Llefwn am gael cuddio'n penau
 O fewn clwyfau'r Iesu cu.



E. Griffiths, Argraffydd, Heol Fawr, Abertawy.